CYNGOR CYMUNED LLANFROTHEN
COFNODION CYFARFOD 7 MEDI 2026
19.00 yn Y Ganolfan, Llanfrothen

1. Presennol

Cenwyn ap Thomas, June Jones, Dafydd Thomas, Beti Williams

Clerc: Huw Rowlands

Cadeirio: Nia Povey

2. Ymddiheuriadau

Siân Cwper, Glyn Griffiths

3. Datgan Diddordeb/Buddiant Personol

Dim

4. Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod 29 Mehefin 2026.

Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod 29 Mehefin 2026

Cynnig: Nia Povey

Eilio: Dafydd Emlyn

5. Materion yn codi o'r Cofnodion

5.1 Ynni Cymunedol

Mae Menter y Ring yn bwriadu gwneud amrywiol geisiadau am grant

Bydd adroddiad dichonoldeb cychwynnol gan Energy Local yn costio tua £500, a bydd angen gwariant o tua £7,500 wedyn i sefydlu'r cynllun.

5.2 Y Ganolfan

Symudwyd arddangosfa Ysgol y Garreg i'r Ganolfan yn ystod mis Awst. 69 o bobl wedi mynychu i gyd a 10 o blant.

Gan fod yr ysgol bellach wedi cau, bydd adran eiddo Cyngor Gwynedd yn cymryd cyfrifoldeb am adeilad yr ysgol. Bydd Cyngor Gwynedd yn rhoi ystyriaeth i drosglwyddo'r ased er budd y gymuned os oes yna gynllun fyddai'n sicrhau fod dyfodol yr adeilad yn hyfyw.

Cytunwyd mai'r cam nesaf fyddai trefnu cyfarfod cyhoeddus i drafod dyfodol adeilad yr ysgol a'r Ganolfan hefyd.

5.3 Arwydd Fflachio Cyflymder

Bu'r cais am grant yn llwyddiannus, ac mae Cyngor Gwynedd wedi dyfarnu grant o £5,500.

Mae'r arwydd wedi ei archebu. Bydd yn cymryd 10 - 14 wythnos i gyrraedd depo Cyngor Gwynedd yng Nghwm y Glo, a bydd Cyngor Gwynedd wedyn yn trefnu iddo gael ei osod.

5.4 Mynwent Tan Lan

Mae'r garreg oedd wedi ei gosod ar ei hochr gan ei bod yn rhydd, wedi cael ei chodi gan Dylan Edwards. Cytunodd y Cynghorydd Nia Povey i wirio bod y garreg yn saff.

Awgrymwyd y byddai torri llwybr drwy'r gwair i gerdded drwy'r fynwent yn syniad da.

Cytunodd y Cynghorydd Nia Povey i ofyn i Dylan Edwards pe byddai am wneud hyn.

5.5 Cwrs Iechyd a Diogelwch

Penderfynwyd y byddai cwrs iechyd a diogelwch o fwy o fudd i gyflogwyr a busnesau lleol.

5.6 Afon Wern, Llanfrothen

Cafwyd diweddariad gan Gyfoeth Naturiol Cymru.

Mae Afon Wern wedi ei gynnwys yn y rhaglen torri chwyn

Fel arfer bydd unrhyw waith yn cychwyn yn yr ardal fisTachwedd a Rhagfyr. Mae'r gwaith hefyd yn ddibynnol ar absenoldeb unrhyw rywogaethau estron goresgynnol megis Clymog Siapan neu Ffromlys Himalaya.

5.7 Torri Coed A4085 Garreg i Benrhyndeudraeth

Mae Cyngor Gwynedd yn bwriadu gwneud y gwaith yma tua diwedd mis, pan fydd y tymor nythu adar wedi dod i ben.

5.8 Tyllau Penrhyndeudraeth i Garreg

Mae'r tyllau ar hyd yr A4085 rhwng Penrhyndeudraeth Garreg bellach wedi eu trwsio gan Gyngor Gwynedd

5.9 Trwsio Twll ar y B4410

Mae Cyngor Gwynedd wedi trwsio'r twll yma yn y ffordd.

5.10 Twll yn Garreg Frech

Mae Cyngor Gwynedd wedi bod draw yn dilyn cwyn fod cyflwr y ffordd yn Garreg Frech mewn cyflwr gwael. Fodd bynnag, maent angen gwybodaeth am yr union leoliad felly bydd y Clerc yn danfon lluniau atynt.

6. Materion Ariannol

6.1 Cyflog Clerc Gorffennaf 2026 £559.04

6.2 Cyflog Clerc Awst 2026 £559.04

6.3 EDF Energy 16 Gorffennaf 2026 - £21.15

EDF Energy 18 Awst 2026 - £21.52

6.4 JW Smith, Hyfforddiant Diffib - £100.00

6.5 Cymru 1, Gwasanaeth Rhyngrwyd 2025-2026 - £466.80

6.6 Michael Kerr Anfoneb 20 Awst 2026, Agor Bedd Mynwent Tan Lan- £490.00

6.7 Cyngor Gwynedd Anfoneb Archwilio Mewnol 2025/26 - £432.00

6.8 Cyngor Gwynedd Treth Annomestig Y Ganolfan 2026/27 - £170.68

6.9 Westcotec Arwydd Fflachio Cyflymder - £5,113.20

6.10 Dunn & Ellis Cyflogres, Anfoneb 14 Gorffennaf 2026 - £73.50

6.11 Ad-dalu'r Clerc, Microsoft 365 - £84.99

6.12 Ad-dalu'r Clerc Papur Argraffydd - £23.99

6.13 Ad-dalu'r Clerc Llygoden Cyfrifiadur - £7.10

6.14 Defnydd Menter Y Ring o'r Ganolfan 2026 - £72.50

6.15 Derbyn Ail Daliad Praesept 2026/27 28 Awst 2026 - £6,650.00

6.16 Derbyn taliad Swmp i'r banc 30 Mehefin 2026 - £14.62

6.17 Derbyn taliad Swmp i'r banc 6 Gorffennaf 2026 - £4.87

6.18 Derbyn taliad Swmp i'r banc 8 Gorffennaf 2026 - £3.90

6.19 Derbyn taliad Swmp i'r banc 10 Gorffennaf 2026 - £2.92

6.20 Derbyn taliad Swmp i'r banc 13 Gorffennaf 2026 - £14.61

6.21 Derbyn taliad Swmp i'r banc 14 Gorffennaf 2026 - £2.92

6.22 Derbyn taliad Swmp i'r banc 16 Gorffennaf 2026 - £5.84

6.23 Derbyn taliad Swmp i'r banc 20 Gorffennaf 2026 - £20.46

6.24 Derbyn taliad Swmp i'r banc 22 Gorffennaf 2026 - £2.92

6.25 Derbyn taliad Swmp i'r banc 23 Gorffennaf 2026 - £12.66

6.26 Derbyn taliad Swmp i'r banc 27 Gorffennaf 2026 - £23.38

6.27 Derbyn taliad Swmp i'r banc 28 Gorffennaf 2026 - £6.82

6.28 Derbyn taliad Swmp i'r banc 30 Gorffennaf 2026 - £6.82

6.29 Derbyn taliad Swmp i'r banc 31 Gorffennaf - £13.64

6.30 Derbyn taliad Swmp i'r banc 3 Awst 2026 - £31.67

6.31 Derbyn taliad Swmp i'r banc 7 Awst 2026 - £7.79

6.32 Derbyn taliad Swmp i'r banc 10 Awst 2026 - £24.36

6.33 Derbyn taliad Swmp i'r banc 11 Awst 2026 - £25.33

6.34 Derbyn taliad Swmp i'r banc 12 Awst 2026 - £4.87

6.35 Derbyn taliad Swmp i'r banc 14 Awst 2026 - £2.92

6.36 Derbyn taliad Swmp i'r banc 17 Awst 2026 - £34.10

6.37 Derbyn taliad Swmp i'r banc 19 Awst 2026 - £9.74

6.38 Derbyn taliad Swmp i'r banc 24 Awst 2026- £11.69

6.39 Derbyn taliad Swmp i'r banc 27 Awst 2026 - £1.95

6.40 Balans yn y prif gyfrif 1 Medi 2026 £10,615.93

6.41 Balans yn y cyfrif cadw 1 Medi 2026 £34,643.52

Bu i'r Clerc a'r Cadeirydd gyfarfod cyn y cyfarfod er mwyn trafod argymhellion yr archwiliad allanol, sut i sicrhau nad oedd y Clerc yn talu am nwyddau neu wasanaethau ei hun ac yna yn gofyn am ad-daliad, a sut i fonitro'r gyllideb yn fwy manwl drwy gydol y flwyddyn.

Trafodwyd y balansau banc a'r gyllideb am weddill y flwyddyn yn ystod y cyfarfod.

7. Gohebiaeth

- Llythyr Diolch gan Urdd Gobaith Cymru - Cronfa Cyfle I Bawb.

8. Cynllunio

Dim

9. Materion Eraill

9.1 Cymeradwyo Rheolau Ariannol Diwygiedig

Diwygiwyd y Rheolau Arianna er mwyn cymryd i ystyriaeth fod y bancio yn awr yn cael ei weithredu ar lein.

Cynnig: Cenwyn ap Thomas

Eilio: Beti Williams

9.2 Llwybr Cerdded Garreg i Benrhyndeudraeth

Nodwyd fod yna fwy o ddefnydd o'r A4085rhwng Garreg a Phenrhyndeudraeth oherwydd bod Ysgol y Garreg wedi cau, a phlant yn mynychu Ysgol Cefn Coch, Penrhyndeudraeth.

Awgrymwyd cysylltu efo'r Dirprwy Weinidog dros Drafnidiaeth yn Llywodraeth Cymru, Mark Hooper.

9.3 Mainc Tu Allan i Ddrws Y Ganolfan.

Mae angen trwsio'r fainc sydd y tu allan i ddrws Y Ganolfan. Yn ogystal, mae angen tacluso'r fainc sydd ger yr hen ysgol yng Nghroesor er cof am y diweddar Merfyn Williams. Penderfynwyd ystyried beth fyddai orau erbyn y cyfarfod nesaf. Mae'n bosibl y byddai Menter y Ring efo diddordeb i gael y fainc yn Y Ganolfan.

9.4 Coed Peryglus Rhwng Tyn Coed a Groeslon Wern

Mae yna goed sydd yn ymddangos fel y gallant gwympo rhwng Tyn Coed a Groeslon Wern. Gofynnwyd i'r Clerc adrodd am y rhain i Gyngor Gwynedd.

9.5 Coed Wedi eu Marcio A4085

Ar ochr chwith yr A4085 wrth deithio o gyfeiriad Garreg at Tan Lan, ar ochr chwith y ffordd rhwng Lodge Brondanw a Gatws mae yna nifer o goed wedi eu marcio mewn gwyn. Credir eu bod yn goed sydd yn dioddef efo clefyd gwywiad yr onnen.

Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu efo Cyngor Gwynedd gan nodi pryder y gallant fod o berygl i'r cyhoedd.

`

Dyddiad y cyfarfod nesaf – 2 Tachwedd 2026 am 7 yr hwyr